# Uwch Ddatblygwr Stac Cyflawn

## Cyflog: £45,264 - £49,143 y flwyddyn (Gradd 10)

## Math o gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

Ydych chi'n ddatblygwr stac cyflawn profiadol a brwdfrydig ac yn chwilio am her newydd a chyffrous? Ydych chi am weithio ar brojectau uchel eu proffil a fydd yn llywio dyfodol adnoddau digidol? Os felly, rydyn ni am i chi weithio gyda ni!

Rydyn ni'n chwilio am Uwch Ddatblygwr Stac Cyflawn talentog i ymuno â'n tîm ac i'n helpu i greu fframweithiau a systemau arloesol. Byddwch chi'n arbenigo mewn technolegau datblygu, a bob amser yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf a sut gallwn ni eu defnyddio i greu cynnwys masnachol. Byddwch chi hefyd yn cydweithio'n agos â'r Rheolwr Datblygu Cynnyrch a'r Arweinydd Arloesi er mwyn sicrhau bod modd cyflawni ein rhaglen 5 mlynedd.

Os ydych chi'n berson creadigol sy'n gallu datrys problemau ac yn angerddol dros arloesi, rydyn ni'n eich annog i ymgeisio.

**Buddion**
Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol) wedi'u haddasu ar gyfer patrymau gweithio rhan-amser / cywasgedig, gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn hael a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Gall dilyn gyrfa gyda CBAC fod yn hynod o werthfawr a byddwch chi'n cael eich annog i ddilyn y cyfleoedd gwych sydd ar gael i ddatblygu eich sgiliau, yn broffesiynol ac yn bersonol.

Rydyn ni'n gweithredu model gweithio hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, yn dibynnu ar anghenion y busnes. Gwahoddir ceisiadau felly gan unigolion ar draws y DU ond bydd gofyn gweithio'n rheolaidd o'n swyddfeydd yng Nghaerdydd – er y gellir trafod rhywfaint o hyblygrwydd o ran hyn, mae'r tîm yn mynychu'r swyddfa un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd ar hyn o bryd. Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ond gwerthfawrogir y parodrwydd i ddysgu'r iaith bob amser.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'n tîm Adnoddau Dynol (AD@cbac.co.uk). Byddan nhw'n fwy na pharod i helpu.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 12:00, dydd Mercher 07 Ionawr 2026

**Disgwylir cynnal cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 12 Ionawr 2026.**

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Uwch Ddatblygwr Stac Cyflawn** |
| **Adran:** | Adnoddau Digidol |
| **Isadran:** | Adnoddau Addysgol |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Datblygu Cynnyrch |
| **Gradd:** | 10 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd |

## Prif bwrpas y Swydd:

- Llunio fframweithiau a systemau blaengar sy'n cefnogi creu ein hadnoddau digidol.
- Bod yn arbenigwr mewn technolegau datblygu gan ddilyn unrhyw newidiadau technolegol a sut y gallwn ddefnyddio dulliau newydd i greu cynnwys masnachol.
- Cydweithio'n agos â'r Rheolwr Datblygu Cynnyrch a'r Arweinydd Arloesi er mwyn sicrhau bod modd cyflawni ein rhaglen 5 mlynedd.
- Cydweithio â'r Rheolwr Datblygu Cynnyrch ac Uwch Ddatblygwyr eraill er mwyn herio a gwella prosesau a gwella cynhyrchiant o flwyddyn i flwyddyn.
- Arwain o ran safonau codio a manylebau a rhannu arfer da gan sicrhau bod set sgiliau y tîm yn addas i'r pwrpas.
- Arwain yr holl waith datblygu ochr gefn.
- Bod yn arbenigwr ym maes datblygu React.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Arloesedd**

- Ymchwilio a datblygu cynnwys a dulliau newydd.
- Bod yn rhagweithiol o ran ymchwilio i dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a sut gellir eu defnyddio i gefnogi, datblygu a gwella arferion da yn yr ystafell ddosbarth mewn amrywiaeth o leoliadau, dros yr ystod oedran 16 - 19 oed a gwthio ffiniau'r technolegau hyn ar gyfer cynhyrchu'r adnoddau mwyaf arloesol posibl.
- Argymell prosesau gwaith a thechnolegau i'w defnyddio ar draws y tîm a neilltuwyd i Becynnau Dysgu Digidol unigol.
- Cefnogi'r datblygwr arweiniol – arloesi wrth lunio a monitro safonau codio ac adrodd cynnydd yn ôl i'r Rheolwr Datblygu Cynnyrch.
- Cefnogi'r Arweinydd Arloesi wrth ddatblygu a chynnal llyfrgell codau a chydrannau eraill y gellir eu hailddefnyddio.
  Cydweithio'n agos ag asiantaethau a chyrff eraill sy'n ymwneud â chreu deunyddiau dysgu.
- Cydweithio'n agos â chydweithwyr yn yr adran TG i sicrhau bod arferion gwaith yn gyson ar draws timau
- Annog y tîm i weithio mewn ffordd iterus.

**Rheoli Projectau**

- Rheoli'r gwaith o ddatblygu dulliau a chynnwys newydd i derfynau amser a meini prawf ansawdd penodol, gan sicrhau bod enw da CBAC yn cael ei wella.
- Cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol yn fewnol ac yn allanol i benderfynu ar ofynion datblygu
- Sicrhau bod dogfennau Rheoli Projectau priodol yn cael eu darparu a'u cynnal.
- Datblygu a defnyddio mecanweithiau olrhain a dulliau rheoli projectau drwy ddatblygiadau cynnyrch Agile er mwyn sicrhau bod terfynau amser wedi'u bodloni, a bod unrhyw broblemau wedi'u gweld ymhell o flaen llaw ac wedi'u hadrodd i'r Rheolwr Datblygu Cynnyrch.
- Cyfrannu at ymarfer gwersi a ddysgwyd a chefnogi'r Arweinydd Arloesi ar ddiwedd projectau yn eich tîm.

**Arall**

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Uwch Ddatblygwr Stac Cyflawn** |
| **Adran:** | Adnoddau Addysgol |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod ddymunol**

- Sgiliau goruchwylio
- Y gallu i weithio gan dalu sylw i'r manylion ac yn fanwl gywir
- Unigolyn sy'n rhagweithiol ac yn gallu ysgogi ei hun, gyda'r gallu i reoli a threfnu eich llwyth gwaith eich hun a llwyth gwaith pobl eraill yn annibynnol er mwyn bodloni sawl terfyn amser sy'n gwrthdaro.
- Unigolyn sy'n gallu datrys problemau yn greadigol, sy'n gyffyrddus yn ei ddefnydd o fenter a hyblygrwydd i ddatrys problemau newydd neu gymhleth yn y gwaith.
- Y gallu i gydweithredu ar brojectau ag aelodau eraill y tîm
- Y gallu i gwblhau project o'r dechrau i'r diwedd yn annibynnol ac yn rhan o dîm
- Cyfathrebwr clir â sgiliau pobl rhagorol

**Dymunol**

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n barod i ddysgu'r iaith

## Gwybodaeth

**Hynod ddymunol**

- Gwybodaeth fanwl am un neu fwy o'r canlynol:
  - Technolegau sylfaenol; HTML5, CSS3 a JavaScript (typeScript).
  - Fframweithiau ochr flaen; REACT.js, Angular.js, ac ati
  - Ieithoedd ochr gefn; Node.js ac ati
  - Cronfeydd data i gefnogi pensaernïaeth cynnwys y we; SQL, NoSQL ac ati
  - Creu llwyfannau cynnwys ar gyfer ffôn symudol, tabled a bwrdd gwaith
  - Y nodweddion a'r datblygiadau diweddaraf ar gyfer rhaglenni ar draws llwyfannau, technegau optimeiddio adnoddau ac integreiddio rhwydweithiau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter)
- Dealltwriaeth gref o'r farchnad addysg a manteision posibl adnoddau digidol
- Y gallu i arwain fel arbenigwr y tîm mewn technolegau, llwyfannau a gwasanaethau newydd

**Dymunol**

- Y gallu i ddangos gwybodaeth am dechnegau ac ymarferion cyfredol yn y maes datblygu digidol

## Profiad

**Hynod ddymunol**

- Profiad blaenorol o weithio mewn rôl debyg
- Profiad helaeth o ddatblygu adnoddau
- Profiad o oruchwylio staff, yn ddelfrydol yn rheoli timau a phrojectau wyneb yn wyneb ac o bell
- Profiad helaeth o gyflwyno Llwyfannau Dysgu Digidol yn llwyddiannus
- Profiad o hyfforddi eraill ar weithdrefnau digidol

**Dymunol**

- Profiad mentora neu'r parodrwydd i dderbyn hyfforddiant

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod ddymunol**

- Addysg hyd at safon gradd neu gywerth mewn technolegau digidol.

**Dymunol**

- Hyfforddiant neu Gymwysterau mewn Rheoli Projectau

## Arall

- Parodrwydd i fod yn hyblyg ac yn barod i ddysgu pethau newydd

## **Telerau ac Amodau Gwasanaeth /** *Terms and Conditions of Service*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd /**<br>*Job Title:* | **Uwch Ddatblygwr Stac Cyflawn** /<br>*Senior Full Stack Developer* | | |
| **Cyflog** /<br>*Salary:* | **£45,264 - £49,143 y flwyddyn** (**pro-rata lle y bo'n gymwys** /<br>*£45,264 - £49,143 per annum (pro-rata where relevant)* | **Gradd /**<br>*Grade:* | 10 |
| **Gwyliau Blynyddol /**<br>*Annual Leave:* | **25 diwrnod (182.5 awr) y flwyddyn. Mae CBAC hefyd yn darparu 16 diwrnod (116.8 awr) i gyfrif am Wyliau Cyhoeddus a chyfnodau Cau CBAC (gwyliau ychwanegol). Mae'r lwfansau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser neu batrymau gweithio cywasgedig.**<br>*25 days (182.5 hours) per annum. WJEC also provides 16 days (116.8 hours) to account for Bank Holidays and WJEC Closure periods (Additional leave). These allowances are adjusted for staff who work part-time or compressed working patterns.* | | |
| **Pensiwn /**<br>*Pension:* | **Mae gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol.**<br>*The provision of the Local Government Pension Scheme (LGPS) applies.* | | |

### **Math o Gytundeb /** *Contract Type:*

| **Oriau Gwaith /** *Working Hours:* | **Hyd y Contract** / *Length of Contract:* |
|---|---|
| ☒ **Llawn-amser** / *Full-time* | ☒ **Parhaol /** *Permanent* |
| ☐ **Rhan-amser** / *Part-time*<br>**Nifer yr oriau yr wythnos /** *No. of hrs per week:* 36.5 | ☐ **Tymor penodol /** *Fixed-term*<br>**Dyddiad gorffen arfaethedig** / *Planned end date:*<br>**Rheswm dros y cyfnod penodol** / *Reason for fixed-term:* |

**Arall /** *Other:*

| | |
|---|---|
| **Cyfnodau prysur llwyth gwaith** / *Workload Peaks:* | **Amh** / *N/A* |

### **Dull Ymgeisio /** *Method of Application:*

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at AD@cbac.co.uk erbyn **12:00, dydd Mercher 07 Ionawr 2026. Disgwylir cynnal cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 12 Ionawr 2026.**

Completed forms should be sent by email to HR@wjec.co.uk by **12:00, Wednesday 07 January 2026**. **Interviews are expected to take place in the week commencing 12 January 2026.**